

# Grant adfer gwirfoddoli yn sgil y Coronafeirws

## Cwestiynau Cyffredin

### 1a) Sut ydw i'n gwneud cais?

Mae angen i bartneriaethau gyflwyno crynodeb cyn gynted â phosibl i gefnogi eu cais drwy lawrlwytho'r [ffurflen gryno](#).

Gall partneriaethau wneud cais llawn drwy lawrlwytho'r [ffurflen gais](#) a'i dychwelyd atom erbyn **18 Rhagfyr 2020**.

### 1b) Beth yw diben y ffurflen gryno

Oherwydd bod y cyfnod cyflawni ar gyfer y grant hwn yn fyr, rydym wedi cynnwys ffurflen gryno yn y broses er mwyn rhoi cyfle i bartneriaethau gael rhywfaint o adborth cychwynnol a chymorth ychwanegol cyn cyflwyno eu cais llawn. Bydd hyn yn eu helpu i ddatblygu cynigion a phartneriaethau o ansawdd.

### 1c) Clywais mai'r dyddiad cau ar gyfer y ffurflenni cryno oedd 7 Rhagfyr; a allwch dderbyn cynigion cryno ar ôl y dyddiad hwn?

Gallwn. Pennwyd dyddiad cau o 7 Rhagfyr yn wreiddiol er mwyn rhoi digon o amser i bartneriaethau ddefnyddio'r adborth i ddatblygu cais llawn mewn pryd ar gyfer cyflwyno ceisiadau llawn erbyn 18 Rhagfyr.

### 1d) A fyddwch yn derbyn ceisiadau llawn hyd yn oed os na chafodd cais cryno ei gyflwyno?

Byddwn

### 1e) A fyddwch yn derbyn ceisiadau llawn ar ôl y dyddiad cau o 18 Rhagfyr?

Yn anffodus, oherwydd amserlenni tynn, ni allwn dderbyn ceisiadau llawn ar ôl 18 Rhagfyr.

### 1f) Beth fydd yn digwydd ar ôl i'r ceisiadau gael eu cyflwyno?

Bydd panel o swyddogion polisi a grant Llywodraeth Cymru yn asesu'r holl geisiadau cyn gwneud argymhellion i'r Gweinidog ddechrau mis Ionawr. Anfonir llythyrau dyfarnu grant at yr ymgeiswyr llwyddiannus yn dilyn cymeradwyaeth y Gweinidog. Rydym yn gobeithio bod mewn sefyllfa i ddosbarthu cyllid i'r ymgeiswyr llwyddiannus erbyn canol mis Ionawr 2021.

### 1g) Sut byddwch yn asesu'r ceisiadau ac yn dyfarnu?

Caiff cyllid ei ddyfarnu yn ôl nifer ac ansawdd y ceisiadau ac yn seiliedig ar y 5 maen prawf canlynol:

Rhif	Y meini prawf	Pwysoliad
1	Sefydlu partneriaeth ystyrlon	30%
2	Cysylltiadau clir ag o leiaf un o'r 4 galluogwr allweddol	20%
3	Amcanion rhaglen clir a chyflawnadwy	30%
4	Cynllun ar gyfer rhannu'r hyn a ddysgwyd ar lefel leol / rhanbarthol	10%
5	Rheoli prosiect da a gwerth am arian	10%

### 1h) Pam fod yr amserlen mor dynn?

Mae'r arian ar gyfer y grant hwn wedi'i sicrhau o gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, a hynny ar gyfer gwariant ar y broses adfer ar ôl COVID. Golyga hyn fod yn rhaid gwario'r holl gyllid erbyn 31 Mawrth 2021 ar weithgareddau sydd wedi digwydd yn y flwyddyn ariannol hon. Er ein bod yn derbyn yr anawsterau sy'n gysylltiedig â gwario'r arian yn effeithiol mewn amserlen fer, roeddem am sicrhau bod y sefydliadau trydydd sector a'r cyrff cyhoeddus a fyddai'n gallu ei ddefnyddio nawr ar gyfer prosiectau hyfyw yn cael cyfle i gael gfael ar y cyllid.

## 2. Nodau a gweithgareddau

### 2a) Beth yw nod y gronfa hon?

Mae'r grant wedi'i gynllunio i:

- Gynnal gwirfoddoli a gweithredu cymunedol yn ystod y pandemig a'r adferiad;
- Gwella neu gyflwyno systemau a threfniadau cymorth newydd i ategu'r seilwaith presennol.

Dylai gweithgareddau ganolbwyntio ar bedwar prif alluogwr gwirfoddoli cynaliadwy, sef:

- Atebolrwydd ac arweinyddiaeth;
- Strategaeth, prosesau a chynhyrchion;
- Adnoddau a phartneriaethau;
- Gwirfoddolwyr a threfnwyr effeithiol.

### 2b) Pa brosiectau a gweithgareddau y gellir defnyddio'r cyllid ar eu cyfer?

Rydym yn disgwyl i bartneriaethau ystyried anghenion eu hardaloedd a datblygu cynigion sy'n diwallu'r anghenion hyn orau o fewn nodau ac egwyddorion y grant. Mae'r mathau o weithgareddau y gellir defnyddio'r cyllid ar eu cyfer yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i, ddatblygu seilwaith a mapio gwirfoddoli mewn ardal benodol, a buddsoddi mewn sgiliau a hyfforddiant ar gyfer datblygu'r gwaith cynllunio yn y dyfodol ar gyfer cymunedau.

### 2c) Ar beth y gallaf wario'r cyllid hwn?

Cyllid refeniw yw hwn ac ni ddylid ei ddefnyddio ar gyfer gwariant cyfalaf.

### 2d) A allaf ddefnyddio'r cyllid hwn i dalu ymgynghorwyr?

Gallech.

### 2e) A ellir defnyddio'r grant hwn i roi grantiau i sefydliadau eraill?

Na. Byddai hyn yn tynnu ffocws oddi wrth agwedd y bartneriaeth ac amcanion tymor hir y grant.

## 3. Partneriaethau ac ymgysylltu

### 3a) A all sefydliad gyflwyno cais ar ei ben ei hun, neu a oes raid i bob cais gael ei wneud mewn partneriaeth?

- *Nid yw ceisiadau gan sefydliadau unigol yn gymwys.*
- *Ni ellir gwneud cais o un sector e.e. ni fyddai dau awdurdod lleol sy'n gweithio mewn partneriaeth yn gallu gwneud cais os nad oeddent yn cynnwys sefydliad o'r trydydd sector.*
- *Yn yr un modd, ni fyddai partneriaeth o Gyngor Gwirfoddol Sirol a sefydliadau arall o'r trydydd sector yn cael ei hystyried pe na bai o leiaf un corff cyhoeddus yn y bartneriaeth hefyd.*

### 3b) A all sefydliadau trydydd sector nad ydynt yn Gyngorau Gwirfoddol Sirol fod yr unig sefydliad trydydd sector yn y bartneriaeth?

Er nad yw partneriaethau wedi'u cyfyngu i Gyngorau Gwirfoddol Sirol, byddem yn gofyn i sefydliadau trydydd sector eraill roi gwybod i Gyngorau Gwirfoddol Sirol lleol am eich cynlluniau gan y bydd hyn yn osgoi dyblygu.

Yn ogystal, dylai ceisiadau fod yn strategol eu natur ac yn seiliedig ar bartneriaethau strategol rhwng sefydliadau.

### 3c) A all Gyngorau Tref a Chymuned fod yr unig gorff cyhoeddus yn y bartneriaeth?

Gallent. Dylai cyrff cyhoeddus yn y bartneriaeth fod y rhai mwyaf priodol i raddfa ac amcanion y prosiect. Rydym yn argymhell y dylai unrhyw gais gyda Chyngor Tref a Chymuned fel yr unig gorff cyhoeddus hefyd sicrhau bod eich awdurdod lleol a'ch CGS lleol yn cael eu gwerthuso o'ch cynlluniau gan y bydd hyn yn osgoi dyblygu.

### **3d) Pa ymgysylltu sydd wedi digwydd ar y grant?**

Rydym wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid amrywiol, gan gynnwys cynrychiolwyr o Cefnogi Trydydd Sector Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (a swyddogion Llywodraeth Leol unigol), Byrddau Iechyd Lleol a Chynghorau Tref a Chymuned. Rydym wedi trafod nodau'r grant, ei amseriad a'i ddyluniad gyda nhw ac wedi defnyddio eu hadborth i'n helpu i gynllunio grant ystyrlon.

## **4. Adrodd, monitro a gwerthuso**

### **4a) Pa adroddiadau fydd eu hangen?**

Bydd rheolwyr y grant yn gyfrifol am fonitro ac adrodd ar eu dyraniadau cyllid. Dylai'r ceisiadau nodi sut y bydd cynnydd yn cael ei fonitro, a dylent gynnwys adnoddau ar gyfer adrodd ar sut y defnyddir y cyllid.

Bydd Llywodraeth Cymru'n datblygu gofynion adrodd yn seiliedig ar themâu cyffredin a nodwyd ar draws ceisiadau. Cyhoeddir y gofynion hyn pan ddyfernir y cyllid, a chânt eu cynllunio i leihau'r baich gwaith gymaint â phosibl baich ac i fod yn gymesur â graddfa'r prosiect a'r amserlenni.

### **4b) Ar gyfer beth y defnyddir adroddiadau ar lefel prosiect?**

Bydd yr adroddiadau ar y defnydd o'r cyllid a'r canlyniadau yn cael eu rhannu â swyddogion Llywodraeth Cymru Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Fe'u defnyddir i nodi'r hyn a ddysgwyd ac i ddatblygu strategaeth hirdymor.

### **4c) Sut y caiff yr hyn a ddysgwyd ei rannu?**

Dylai'r cynigion gynnwys cynlluniau ar gyfer sut y bydd yr hyn a ddysgwyd yn cael ei rannu ar lefel prosiect. Bydd Llywodraeth Cymru'n datblygu cynllun ar gyfer rhannu'r dysgu ar lefel rhaglen.

## **5. Rheolwyr y grant**

### **5a) Beth yw rôl rheolwr y grant?**

Rhaid i bob partneriaeth enwebu un sefydliad fel rheolwr y grant. Bydd rheolwr y grant yn gyfrifol am dderbyn y cyllid a'i ddsbarthu i'r sefydliadau eraill sy'n rhan o'r bartneriaeth, a bydd hefyd yn adrodd i Lywodraeth Cymru ar sut y defnyddiwyd y cyllid.

### **5b) A oes angen i'r rheolwr grant fod o sector penodol?**

Gall y rheolwr grant fod unrhyw sector. Mae'r cyllid yn cael ei ddsbarthu i bartneriaethau er mwyn annog cydweithio rhwng sefydliadau. Wrth ddatblygu ceisiadau partneriaeth, dylai sefydliadau ystyried pa sefydliad sydd yn y sefyllfa orau i sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddsbarthu'n gyflym ac yn effeithiol, a'u henwebu fel rheolwr y grant.

## **6. Swm y cyllid, y dyddiadau gwario a'r trefniadau talu**

### **6a) Faint o arian y gall partneriaethau wneud cais amdano?**

Nid ydym yn pennu isafswm nac uchafswm, gan y bydd Llywodraeth Cymru'n asesu ac yn dyfarnu cyllid yn dibynnu ar gryfder y cynnig o ran bodloni'r meini prawf a'r gallu i'w gyflawni o fewn yr amserlen.

Bydd swm y cyllid y gwneir cais amdano ac a ddyfernir hefyd yn dibynnu ar p'un a yw'r prosiect ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol. Felly dylai partneriaethau wneud cais am swm sy'n addas ar gyfer maint y prosiect ac y gellir ei wario o fewn yr amserlen.

Efallai yr hoffech ystyried terfyn uchaf o £250k er mwyn galluogi'r bartneriaeth i wario'r cyllid o fewn yr amserlen. Ond canllaw yn unig yw hwn.

### **6b) A ellir talu'r cyllid ymlaen llaw neu mewn ôl-daliadau?**

Gall cyrff cyhoeddus sy'n gweithredu fel rheolwr y grant gael eu talu ymlaen llaw er mwyn iddynt allu gwneud rhagdaliadau i sefydliadau yn y trydydd sector ond nid i dalu eu costau eu hunain.

Ni fydd angen i sefydliadau trydydd sector sy'n gweithredu fel rheolwr y grant roi eglurhad am fod hawl awtomatig ganddynt i dderbyn taliadau ymlaen llaw o dan Gynllun y Trydydd Sector.

### **6c) A fydd yr arian hwn yn cael ei ymestyn y tu hwnt i fis Mawrth 2021?**

Nid oes unrhyw gynlluniau i ymestyn y cyllid hwn y tu hwnt i fis Mawrth 2021.

### **6d) Beth os na fydd y cyllid wedi'i wario erbyn mis Mawrth 2021?**

Rhaid gwario'r holl gyllid erbyn neu ar 31 Mawrth 2021 ar weithgareddau sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Bydd yn rhaid ad-dalu unrhyw arian nad wariwyd erbyn diwedd 31 Mawrth 2021. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys cymryd camau i adennill unrhyw arian na wariwyd sydd wedi'i ddsbarthu i sefydliadau eraill.

## **7. Cyffredinol**

### **7a) Beth y dylwn ei wneud os nad yw fy nghwestiwn wedi'i ateb yn y rhestr hon?**

Cysylltwch ag aelod o dîm grantiau'r trydydd sector drwy:

e-bostio [thirdsectorqueries@llyw.cymru](mailto:thirdsectorqueries@llyw.cymru)

ffonio **03000 251672**.

### **7b) Beth yw'r dyddiadau allweddol ar gyfer y grant hwn?**

**7 Rhagfyr 2020** – dyddiad cau ar gyfer cyflwyno crynodeb o brosiectau

**9-11 Rhagfyr** – rhoi adborth i bartneriaethau ar eu crynodebau

**18 Rhagfyr 2020** – dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau llawn

**19-31 Rhagfyr 2020** – asesu'r ceisiadau llawn

**w/c 4 Ionawr 2020** – anfon argymhellion i'r Gweinidog

**11-15 Ionawr 2020** – anfon llythyrau dyfarnu grant